

Mae rhywfaint o wybodaeth eisoes ar-lein - taflen ffeithiau wedi'i chyhoeddi:

<https://llyw.cymru/diweddariad-brechlyn-covid-19>

Cwestiynau ac Atebion

PAM DDYLECH CHI GAEL Y BRECHLYN

Pam mae brechlynnau'n bwysig?

Mae brechlynnau'n dysgu eich system imiwnedd sut i'ch amddiffyn rhag clefydau. Mae'n llawer mwy diogel i'ch system imiwnedd ddysgu hyn drwy frechlyn na thrwy ddal y clefydau a cheisio eu trin.

Gall brechlynnau leihau neu hyd yn oed ddileu rhai clefydau, os caiff digon o bobl eu brechu. Ers i frechlynnau gael eu cyflwyno, mae clefydau fel y frech wen a pholio a arferai ladd neu anablu miliynau o bobl wedi diflannu o'r DU.

Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi dweud y bydden nhw'n cael brechlyn ar gyfer COVID-19 pan fydd ar gael.

Mae'r ymateb hirdymor i'r pandemig yn ei gwneud yn ofynnol i frechlyn diogel ac effeithiol fod ar gael i bawb sydd ei angen. Mae'n ffordd o gadw ffrindiau a theulu yn ddiogel, gan arwain at godi'r cyfyngiadau o bosibl.

Rwyf eisoes wedi cael COVID/wedi cael prawf positif am wrthgyrff. A oes angen i mi gael fy mrechfu?

Dylech chi gael eich brechu. Nid ydym yn gwybod am ba hyd y bydd yr ymateb imiwn yn para ymysg y rhai sydd wedi cael y clefyd. Pan fyddwch yn cael y brechlyn newydd ar gyfer COVID-19, byddwch yn lleihau lledaeniad y feirws angheuol hwn ac yn helpu i'ch diogelu chi eich hun ac eraill.

Mae rhai pob yn credu bod y feirws yn llai o fygythiad nag yr oedd, felly nid oes angen brechlyn: nid wyf yn adnabod neb sydd wedi cael COVID, felly pam mae angen brechlyn arnom?

Mae nifer y bobl ledled y byd sydd wedi marw gyda COVID-19 yn fwy na miliwn¹ erbyn hyn ac mae llawer o ranbarthau yn dal i gofnodi bod niferoedd yr heintiau newydd yn cynyddu'n gyflym.

Yng Nghymru, gwelwyd llawer o farwolaethau a miloedd yn fwy o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty, neu â chymhlethdodau iechyd parhaus.

Mae pobl yn parhau i gael eu heintio, ac ar ôl i'r feirws ddechrau lledaenu gall wneud hynny'n gyflym. Hyd yn oed os nad ydych chi, eich teulu neu'ch ffrindiau wedi cael profiad uniongyrchol ohono, nid yw hynny'n golygu nad yw'n fygythiad. Diogelwch

¹ <https://www.ecdc.europa.eu/cy/geographical-distribution-2019-ncov-cases>

eich teulu ac eraill. Bydd cael eich brechu yn helpu i'ch diogelu a lleihau lledaeniad y feirws angheuol hwn.

Beth am driniaethau? A oes ffyrdd effeithiol o drin COVID?

Profwyd bod rhai triniaethau yn gwneud gwahaniaeth, er enghraifft gall remdesivir, y cyffur gwrthfeirysol, leihau hyd salwch. Dangoswyd bod dau gyffur steroid, dexamethasone a hydrocortisone, yn achub bywydau ond dim ond ymysg pobl sy'n ddifrifol wael yn yr ysbyty.

Byddai'n well atal y salwch, yn hytrach na'i gael a'i drin. Gall brechlyn helpu i'ch atal rhag ei gael, lleihau effaith y clefyd ac arafu'r lledaeniad. Bydd hyn yn helpu i atal eraill rhag ei gael a'i basio i bobl eraill.

Os byddaf yn cael y brechlyn a fyddaf yn imiwn am oes? / A allaf ddal COVID ar ôl i mi gael fy imiwneiddio?

Nid ydym yn gwybod pa mor hir fydd yr amddiffyniad yn parhau ac efallai y bydd angen mwy nag un dos.

A fydd y brechlyn yn rhad ac am ddim os ydw i mewn grŵp blaenoriaeth? A fydd yn rhad ac am ddim os nad ydw i mewn grŵp blaenoriaeth?

Bydd y brechlyn yn cael ei ddarparu am ddim drwy'r GIG. Efallai y bydd yn cymryd amser i gyrraedd pawb, ond, pan gewch eich gwahodd, gwnewch yn siŵr eich bod cael eich brechlyn chi.

A fydd mesurau eraill (cadw pellter cymdeithasol/gorchuddion wyneb/cyfyngiadau symud) yn dal i fod yn berthnasol i mi os byddaf wedi cael y brechlyn?

Byddant, dylech barhau i gymryd camau i atal y coronafeirws rhag lledaenu yn y gymuned a chadw at y rheoliadau.

Rwyf mewn cysylltiad â phobl mewn grwpiau cymwys. Ddylwn i roi gwybod iddynt fod y brechlyn ar ei ffordd?

Os ydych chi'n feddyg, yn nyrs, yn weithiwr gofal neu mewn swydd sy'n dod i gysylltiad â chleifion, yn ogystal â chael eich blaenoriaethu ar gyfer y brechlyn, bydd gennych rôl bwysig o ran cynnig gwybodaeth am frechlynnau i bobl eraill. Gall pobl ofyn ichi am gysur ynghylch diogelwch ac effeithiolrwydd brechlynnau. Yn ogystal â'r wybodaeth yn y ddogfen hon, bydd gwybodaeth ar gael i gleifion gyda rhagor o fanylder am frechlynnau unigol.

DIOGELWCH/ EFFEITHIOLRWYDD

A allwn ymddiried mewn brechlyn sydd wedi cael ei ruthro?

Er mwyn i frechlyn fod ar gael i'r cyhoedd mae'n rhaid iddo weithio a bod yn ddiogel.

Efallai bod camsyniad bod ymchwil i frechlyn yn cymryd amser maith. Nid yr ymchwil sy'n cymryd amser ond yr holl gamau sydd angen eu cymryd ymlaen llaw, fel cael cyllid a chymeradwyaeth. Yr hyn sydd wedi cyflymu o ran datblygu brechlyn COVID-19 yw'r cyllid. Ariannodd Llywodraeth y DU dreialon i'w roi ar waith yn gyflym.

Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) a'r Awdurdod Ymchwil i Feddyginiaethau wedi cyflymu'r broses gymeradwyo - mae pethau fel gwaith papur gweinyddol a arferai gymryd misoedd bellach yn cael ei wneud o fewn dyddiau. Dyma beth sydd wedi lleihau'r amser ar gyfer cynnal y treialon clinigol.

Mae prosesau wedi cael eu symleiddio a'u gweithredu ochr yn ochr â'i gilydd. Nid yw hyd y treialon eu hunain wedi ei gwtogi, ac mae'r mesurau diogelwch arferol yn parhau i fod ar waith ac mae'n rhaid cyrraedd safonau uchel o hyd.

Mae hyn wedi'i alluogi hefyd gan dechnoleg newydd, gan gynnwys y gallu i weithgynhyrchu brechlynnau yn gyflym. Ac o ran y cyflenwad - mae'r brechlyn yn cael ei gynhyrchu eisoes er mwyn iddo gael ei ryddhau cyn gynted ag y daw cadarnhad ei fod yn ddiogel ac yn effeithiol.

A yw pobl yn mynd i fod yn rhoi/cael brechlyn didrwydded, a beth mae hynny'n ei olygu?

Er mwyn cynnig brechlyn, rhaid profi ei fod yn ddiogel a'i fod yn gweithio.

Mae brechlyn sydd ei angen i ddiogelu iechyd y cyhoedd mewn argyfwng yn mynd i fod yn frechlyn didrwydded, a hynny am nad yw'r cwmnïau fferyllol wedi cael amser i gael y caniatâd angenrheidiol i'w drwyddedu.

Nid yw'r ffaith bod brechlyn yn didrwydded yn golygu nad yw wedi cael ei brofi. Mae brechlynnau didrwydded eisoes yn cael eu defnyddio yn y DU mewn rhai sefyllfaoedd, ond dim ond pan fydd profion wedi dangos eu bod yn ddiogel.

Gall y broses drwyddedu gymryd wythnosau neu fisoedd hyd yn oed. Mae hyn yn digwydd ar ôl i'r treialon gael eu cwblhau, sydd fel arfer yn golygu bod y brechlyn eisoes wedi cael ei brofi ar filoedd o oedolion. Os ystyrir bod brechlyn yn ddiogel ac yn effeithiol, gellir ei ddefnyddio tra bydd ochr weinyddol y broses drwyddedu yn mynd yn ei blaen.

Trwyddedu yw pan fydd arbenigwyr yn yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd cenedlaethol yn adolygu canlyniadau'r treialon. Yn gyffredinol mae'n rhaid i safonau brechlynnau fod yn llawer uwch na'r rhai ar gyfer meddyginiaeth i drin salwch, gan fod brechlynnau fel arfer yn cael eu rhoi i bobl iach er mwyn atal clefyd.

Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori ar gynlluniau sy'n cynnig gwneud y rheolau ynghylch cyflwyno brechlynnau didrwydded yn gyflym yn llymach, nid yn llacach.

Sut y gallaf fod yn sicr bod y brechlyn yn ddiogel ar gyfer fy nghyflyrau ieched?

Efallai y bydd rhai unigolion yn ystyried eu hunain yn fwy agored i sgil-ffeithiau neu effeithiau negyddol y brechlyn.

Pan geir cadarnhad pa frechlynnau fydd yn cael eu defnyddio, byddwn yn agored ac yn dryloyw am nodweddion pob brechlyn a manylion pa frechlynnau fydd fwyaf addas ar gyfer pob grŵp.

Bydd meddygon, nyrsys a brechwyr yn cael eu hysbysu'n llawn am nodweddion, effeithiolrwydd a risgiau'r brechlyn. Caiff unigolion eu cynghori i drafod unrhyw bryderon pan gânt eu gwahodd i gael eu brechu.

Rhoddir gwybodaeth i bobl cyn iddyn nhw gael eu brechu (a bydd y wybodaeth ar gael ar-lein) i dawelu eu meddyliau am ddiogelwch a chaniatáu iddyn nhw wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Beth yw'r argymhelliad os ydw i'n feichiog neu os ydw i'n bwriadu beichiogi?

Nid oes cyngor ar gael ar feichiogrwydd eto. Pan fydd y brechlyn cyntaf ar gael, mae'n annhebygol y bydd tystiolaeth ar gael o dreialon gyda menywod beichiog. Hyd yn oed os bydd dealltwriaeth o fenywod sy'n beichiogi yn y treialon mawr, mae'n dal yn annhebygol y bydd menywod beichiog ymhlith y cyntaf i gael y brechlyn.

Erbyn dechrau 2021, bydd mwy o ddata ar gael ar effeithiau COVID yn ystod beichiogrwydd. Mae'r dystiolaeth honno'n bwysig oherwydd mae'n dweud wrthym am risg. Os yw'r feirws yn creu risg fawr i fenywod beichiog, yna mae'n bosibl y gallai menywod beichiog gael cynnig brechlyn yn gynt.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn cael sgil-ffeithiau/digwyddiadau niweidiol neu annisgwyl, sut mae rhoi gwybod am hynny?

Mae brechlynnau'n ddiogel iawn. Fel gyda phob meddyginiaeth, gall sgil-ffeithiau ddigwydd ar ôl cael brechlyn. Fodd bynnag, mae'r rhain fel arfer yn ysgafn ac nid ydynt yn para'n hir, fel braich ddolurus neu dwymyn ysgafn. Mae'n bosibl i rywun gael sgil-ffeithiau mwy difrifol, ond mae hynny'n beth prin awn. Mae profion wedi'u cynnal ar filoedd o oedolion i sicrhau bod y brechlyn yn ddiogel.

Pan gewch y brechiad, byddwch yn cael gwybodaeth am sut i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau niweidiol. Cewch fanylion y system cerdyn melyn² ac enw a rhif batsh y brechlyn a roddir i chi.

² <https://yellowcard.mhra.gov.uk/>

Mae'n hanfodol adrodd am unrhyw ddigwyddiadau ac ymchwilio iddynt. Mae diogelwch cleifion/y rhai sy'n derbyn y brechlyn o'r pwys mwyaf.

Beth sydd yn y brechlynnau? A fydd unrhyw gynhwysion ynddyn nhw sy'n anaddas ar gyfer [grŵp crefyddol/fegan/alergeddau etc]?

Bydd taflenni cleifion sy'n esbonio'r gwahanol frechlynnau a chynhwysion yn cael eu datblygu a bydd gwybodaeth ar gael i bobl cyn iddyn nhw gael eu brechu fel y gallant wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Pwy all gael y brechlyn?

Gall bron pawb gael eu brechu. Fodd bynnag, oherwydd rhai cyflyrau meddygol, ni ddylai rhai pobl gael rhai mathau o frechlynnau, neu dylen nhw aros cyn eu cael.

Gall y cyflyrau hyn gynnwys:

- Salwch cronig neu driniaethau (fel cemotherapi) sy'n effeithio ar y system imiwnedd;
- Alergeddau difrifol i gynhwysion brechlyn, sy'n rhoi bywyd yn y fantol ond sy'n brin iawn;
- Os oes gennych salwch difrifol a thwymyn uchel ar y diwrnod brechu.

Mae'r ffactorau hyn yn aml yn amrywio ar gyfer pob brechlyn. Os nad ydych yn siŵr a ddylech gael y brechlyn, siaradwch â'ch meddyg neu nyrs. Gallant eich helpu i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am frechu.

A fydd angen prawf seroleg i gadarnhau imiwnedd?

Ni ddisgwylir y bydd angen hyn.

CYMHWYSTRA

Pa bryd fydd brechlyn ar gael?

Y gobaith yw y bydd ychydig o'r brechlyn ar gael cyn diwedd y flwyddyn i'r bobl y mae mwyaf o risg iddynt.

Efallai mai dim ond ychydig bach o frechlynnau fydd ar gael i ddechrau, felly byddant yn cael eu cynnig i'r bobl sydd eu hangen fwyaf. Bydd yn cymryd amser i sicrhau digon o gyflenwad o frechlynnau i bawb.

Pam mae rhai [gweithwyr iechyd a gofal/pobl â'r cyflwr X/grwpiau oedran] yn gymwys ac nid eraill? Ydw i/a yw fy mhroffesiwn yn gymwys?

Er mwyn helpu i ddiogelu'r rhai sydd ei angen fwyaf, mae'r brechlyn yn cael ei gynnig i grwpiau sydd â'r risg uchaf yn gyntaf. Wrth i fwy o'r brechlyn ddod ar gael, bydd yn cael ei gynnig i bobl eraill.

Mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi gwneud argymhellion ynghylch y flaenoriaeth dros dro ar gyfer brechlynnau COVID-19. Bydd Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU yn cael eu harwain gan yr argymhellion. Mae'r cyngor yn seiliedig ar wybodaeth gychwynol am y brechlynnau sy'n cael eu datblygu, a llinellau amser dros dro ar gyfer argaeledd brechlyn, a gall newid.

Mae'r pwyllgor yn cytuno'n gryf y bydd rhaglen syml yn seiliedig ar oedran yn debygol o arwain at gyflwyno'r brechlyn yn gyflymach ac at niferoedd mwy o'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn manteisio arno.

Mae trefn flaenoriaeth dros dro ar gyfer pobl sy'n wynebu risg wedi'i nodi isod:

- oedolion hŷn sy'n byw mewn cartref gofal a gweithwyr cartrefi gofal
- pawb sy'n 80 oed a hŷn a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- pawb sy'n 75 oed a hŷn
- pawb sy'n 70 oed a hŷn
- pawb sy'n 65 oed a hŷn
- oedolion risg uchel o dan 65 oed
- oedolion risg gymedrol o dan 65 oed
- pawb sy'n 60 oed a hŷn
- pawb sy'n 55 oed a hŷn
- pawb sy'n 50 oed a hŷn
- gweddill y boblogaeth (blaenoriaeth i'w phennu)

Gallai'r drefn flaenoriaeth newid yn sylweddol pe na bai'r brechlynnau cyntaf sydd ar gael yn cael eu hystyried yn addas, neu'n effeithiol, ar gyfer oedolion hŷn.

Bydd y Cyd-bwyllgor Imiwneiddio a Brechu yn darparu rhagor o fanylion am gymhwysedd a diffiniadau gweithwyr iechyd a gofal, a diffiniadau o lefelau risg, a bydd hyn yn cael ei egluro mewn gohebiaeth.

<https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-25-september-2020/jcvi-updated-interim-advice-on-priority-groups-for-covid-19-vaccination>

Pam nad yw plant a phobl ifanc risg uchel wedi eu cynnwys ar y rhestr?

Efallai y bydd rhai pobl ifanc sy'n wynebu risg yn cael eu hystyried ar gyfer eu brechu ond fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid yw plant yn grŵp risg uchel gan nad yw COVID yn effeithio'n wael arnynt yn gyffredinol.

Ydy pobl a oedd yn cael eu gwarchod wedi'u cynnwys yn y grwpiau blaenoriaeth?

Bydd argymhellion y Cyd-bwyllgor Imiwneiddio a Brechu yn cynnwys rhai pobl yn y grŵp 'gwarchod' ehangach (pobl dros 80 oed er enghraifft) ond, fel y mae pethau ar hyn o bryd, nid yw pobl sy'n cael eu gwarchod wedi'u cynnwys yn y grwpiau cyntaf i gael eu brechu. Mae'r Cyd-bwyllgor yn cytuno'n gryf y bydd rhaglen syml yn seiliedig ar oedran yn debygol o arwain at gyflwyno'r brechlyn yn gyflymach ac at niferoedd mwy o'r rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf yn manteisio arno.

Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi ysgrifennu at y rhai yn y grŵp gwarchod i roi cyngor iddynt ar sut i leihau eu risg o ddal neu ledaenu COVID³.

A fydd pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig neu'r rhai o ardaloedd o amddifadedd, ymhlith y cyntaf i gael y brechlyn?

Bydd llawer o bobl o grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a phobl o gymunedau o amddifadedd, yn y grwpiau y rhoddir blaenoriaeth gynnar iddynt.

Yn ogystal ag oedran a chydafiachedd sylfaenol, mae ffactorau risg posibl yn cynnwys amddifadedd ac ethnigrwydd.

Mae ymchwil wedi dangos bod COVID-19 wedi effeithio'n anghymesur ar bobl yn y grwpiau hynny a bod eu risg o farw neu o droglwyddo'r clefyd yn uwch.

Gwneir pob ymdrech i frechu cyfran dda o grwpiau pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, mewn ardaloedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol uwch, ac mewn ardaloedd ag achosion neu lefelau uchel o drosglwyddiad yn y gymuned.

Mae hyn yn cynnwys nodi cynhwysion brechlyn a allai fod yn rhwystr i rai grwpiau eu cymryd.

Bydd cynlluniau a deunyddiau cyfathrebu yn ystyried mewnwelediad a thystiolaeth gan Lywodraeth y DU, Public Health England, Iechyd Cyhoeddus Cymru a ffynonellau eraill.

A fydd y staff sy'n rhoi'r brechlyn i bobl hefyd ymhlith y cyntaf i'w gael?

³ <https://gov.wales/sites/default/files/inline-documents/2020-10/letter.pdf>

Ar hyn o bryd mae gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn un o'r grwpiau sydd wedi'u nodi fel grŵp blaenoriaeth ar gyfer cael y brechlyn.

Bydd penderfyniad terfynol ar flaenoriaethu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn dibynnu ar nodweddion y brechlyn a'r epidemioleg ar ddechrau unrhyw raglen.

Rwy'n gweithio mewn rôl lle rwy'n dod i gysylltiad â chleifion ond nid wyf mewn grŵp sy'n wynebu risg, pam ydw i'n cael fy mlaenoriaethu?

Fel gweithiwr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol, y brechlyn COVID-19 newydd yw eich amddiffyniad gorau yn erbyn y feirws, er mwyn eich cadw'n iach, sicrhau eich bod yn gallu gweithio, a sicrhau eich bod yn helpu i leihau lledaenu'r feirws i gleifion, teulu a ffrindiau.

Dylid parhau i ddefnyddio mesurau eraill, gan gynnwys defnyddio cyfarpar diogelu personol a gweithdrefn rheoli heintiau briodol er mwyn atal y feirws rhag lledaenu.

Rwy'n gweithio mewn rôl nad yw'n ymwneud â chleifion, ond sy'n hanfodol i ymateb y GIG i COVID-19. Pam nad wyf yn cael fy mlaenoriaethu ar gyfer brechlyn?

Mae rhai pobl yn wynebu mwy o risg nag eraill o ddod i gysylltiad â COVID-19 neu o gael cymhlethdodau difrifol yn deillio o'r feirws, a dyna pam mae'r brechlyn newydd yn cael ei gynnis iddyn nhw yn gyntaf. Wrth i fwy o frechlyn ddod ar gael, bydd yn cael ei gynnis i bobl eraill.

Rwy'n gweithio yn y sector gwirfoddol/sector preifat yn darparu gofal rheng flaen, alla i gael brechlyn hefyd?

Bydd y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu yn darparu rhagor o fanylion am gymhwysra a diffiniadau o weithwyr iechyd a gofal, a diffiniadau o lefelau risg, a bydd hyn yn cael ei egluro mewn gohebiaeth.

<https://www.gov.uk/government/publications/priority-groups-for-coronavirus-covid-19-vaccination-advice-from-the-jcvi-25-september-2020/jcvi-updated-interim-advice-on-priority-groups-for-covid-19-vaccination>

A fydd yn ofynnol i staff gael y brechlyn er mwyn parhau i weithio mewn sectorau penodol?

Ni fwriedir cyflwyno rhaglen frechu orfodol ar gyfer staff na'r cyhoedd, ond gall helpu i'ch diogelu chi ac eraill, a helpu i atal COVID rhag lledaenu.

A fydd digon o frechlyn ar gael i frechu'r boblogaeth gyfan dros amser?

Ni fydd y rhaglen frechu yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan gan nad oes unrhyw gynlluniau i frechu'r rhai dan 18 oed. Efallai y bydd yn cymryd amser i gyrraedd pob oedolyn. Y rhai sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael cymhlethdodau difrifol sy'n cael cynnis y brechlyn yn gyntaf.

DARPARU'R BRECHLYN

Sut y byddaf yn darganfod a wyf yn gymwys a ble i gael fy mhigiad(au)?

Byddwch yn cael gohebiaeth gan eich cyflogwr/bwrdd iechyd yn eich hysbysu am y brechlyn, ble i fynd a beth i'w wneud ar y diwrnod fel y gallwch gael eich brechu mewn lleoliad cyfleus, diogel.

Mae gen i symptomau/rwyf wedi cael canlyniad prawf positif ac rwyf i fod i gael fy mrechu. A ddylwn i fynd?

Dim ond unigolion iach ddylai fynd i gael eu brechu. Os oes gennych symptomau COVID-19, heintiau eraill, neu os ydych yn hunan-ynysu oherwydd eich bod wedi bod yn teithio neu os ydych yn gyswllt i achosion O COVID-19 a amheuir neu a gadarnhawyd, ni ddylech fynd i gael eich brechu.

Pwy fydd yn gallu rhoi'r brechlyn ac a fydd digon o bobl ar gael?

Disgwylir y bydd yr anghenion cychwynnol yn cael eu diwallu gan staff sydd eisoes yn ymwneud â rhaglenni brechu o fewn byrddau iechyd (e.e. nyrsys iechyd galwedigaethol a Hyrwyddwyr Ffliw/Brechwyr Cymheiriaid), yn ogystal â recriwtio drwy staff cronfa, a all gynnwys staff cofrestredig, sefydliadau gwirfoddol fel Sant Ioan a phersonél y lluoedd arfog. Gellid hyfforddi unigolion eraill sydd â sgiliau perthnasol i fod yn frechwyr.

Bydd brechlynnau'n cael eu rhoi gan imiwneiddwyr cymwys a hyfforddedig.

Mae llywodraeth y DU wedi ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch a ddylid newid y rheolau ynghylch pwy sy'n gallu rhoi rhai brechlynnau, a allai gynnwys rhai pobl nad ydyn nhw fel rheol yn eu rhoi, gan gynnwys rhai nad ydyn nhw'n weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig.

Byddai'r diwygiadau i reoliadau meddyginiaethau yn caniatáu i unrhyw berson⁴ wedi'i hyfforddi a'i asesu fel rhywun sy'n gymwys i roi brechlyn i allu gwneud hynny - yng Nghymru byddai hyn yn dod o dan brotocol cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn darparu adnoddau a chanllawiau e-ddysgu ar gyfer y gweithlu estynedig. Mae adnoddau hyfforddi ar y fflw ar gael ar hyn o bryd. Bydd ICC ar y cyd â Public Health England yn darparu adnoddau cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant. Bydd y rhai sy'n gweinyddu'r brechlyn yn cael cynnig hyfforddiant ymarferol a ddarperir yn lleol mewn technegau gweinyddu brechlyn ac atal a rheoli heintiau.

⁴ <https://www.gov.uk/government/consultations/distributing-vaccines-and-treatments-for-covid-19-and-flu/consultation-document-changes-to-human-medicine-regulations-to-support-the-rollout-of-covid-19-vaccines#proposed-expansion-to-the-workforce-eligible-to-administer-vaccinations>

Faint o ddosau sydd eu hangen arnaf, sut y byddaf yn gwybod pryd/ble i gael dosau dilynol, a oes angen i mi adael bwlch rhwng cael pigiad fflw?

Darperir y wybodaeth hon cyn brechu oherwydd gall amrywio yn dibynnu ar ba frechlyn a gynigir. Bydd cofnod yn cael ei gadw a'i gysylltu â chofnodion meddygol y GIG.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio ar system i ffonio ac atgoffa pobl am eu hapwyntiadau a chofnodi a monitro data o ganolfannau brechu.

A fydd Brexit yn effeithio ar argaeledd y brechlyn?

Mae'r gwaith cynllunio'n seiliedig ar argaeledd dosau a weithgynhyrchir yn y DU ac ni fyddai gadael Ewrop yn effeithio arnynt.

A fydd y rhaglen estynedig brechlyn rhag y fflw yn effeithio ar y gallu i ddarparu brechlyn COVID?

Disgwylir i fwyafrif helaeth y rhaglen frechu rhag y fflw gael ei chwblhau cyn i raglen frechu COVID-19 ddechrau. Fodd bynnag, mae cynlluniau ar waith i ddarparu brechiadau rhag y fflw a COVID ar yr un pryd os bydd angen.

Os ydych yn gymwys i gael y brechlyn COVID, mae'n debygol y byddwch hefyd yn gymwys i gael y brechlyn fflw a dylech gael hwnnw pan gewch eich gwahodd. Awgrymir gadael bwlch o 7 diwrnod rhwng brechiad rhag y fflw a brechiad COVID.

A fydd digon o gyfarpar diogelu personol/nwyddau traul ar gyfer cyflwyno'r brechlynnau?

Yn seiliedig ar waith a wnaed eisoes, nid ydym yn rhagweld unrhyw brinder o ran cyfarpar diogelu personol na nwyddau traul er mwyn cyflwyno'r brechlynnau.

Mae llywodraethau Cymru a'r DU yn gweithio ar y cyd i gaffael yr offer sydd eu hangen i ddarparu'r brechlyn.

Mae cyngor ar atal heintiau a'r cyfarpar diogelu personol sy'n ofynnol ar gyfer rhoi brechlyn ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.⁵

Beth fydd yn digwydd os byddaf eisiau rhoi gwaed ar ôl cael y brechlyn, a oes rhaid aros?

Mae'n bwysig iawn cael y brechlyn yn gyntaf, a dilyn y canllawiau ynghylch pryd y gallwch roi gwaed ar ôl cael brechiad COVID.

⁵ <https://phw.nhs.wales/topics/latest-information-on-novel-coronavirus-covid-19/information-for-health-and-social-care/advice-on-ppe-guidance-implementation/>

TREIALON BRECHLYN

A yw Cymru'n cymryd rhan mewn treialon brechlyn?

Mae Cymru'n rhan o raglen y DU sy'n cynnal astudiaethau ar gyfer brechlynnau – bydd hyn yn rhoi cyfle i rai o bobl Cymru gymryd rhan. Cynhelir nifer o astudiaethau yng Nghymru rhwng nawr a 2021, ac fe gynhelir gwahanol astudiaethau mewn gwahanol ranbarthau ar draws Cymru. Bydd gwybodaeth am yr astudiaethau ar gael ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy gyfryngau eraill, drwy sefydliadau fel cyflogwyr mawr a thrwy wefannau cofrestrfeydd brechlynnau. Ni fydd yn bosibl cynnal pob astudiaeth yng Nghymru – efallai y bydd angen pobl o grŵp oedran penodol neu bobl sy'n gwneud swydd benodol. Weithiau rhaid cynnal astudiaethau mewn ardaloedd lle mae lefelau uchel o haint COVID-19 er mwyn cael canlyniadau'n gyflym.

Sut all pobl Cymru roi gwybod os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r treialon brechlyn?

Gall pobl o bob rhan o'r DU gofrestru i roi caniatâd i ymchwilyr gysylltu â nhw ynglŷn â chymryd rhan mewn astudiaethau brechlyn COVID-19. Drwy gasglu manylion am bobl sydd â diddordeb mewn cymryd rhan mewn astudiaethau brechlyn, bydd yn helpu i leihau'r amser y mae'n ei gymryd i ddod o hyd i wirfoddolwyr ar gyfer yr astudiaethau. Bydd hyn yn helpu ymchwilyr i gynnal astudiaethau a dod o hyd i frechlyn yn gyflymach. Gallwch gofrestru ar gofrestrfa y DU gyfan os ydych yn 18 oed neu'n hŷn ac yn byw yn y DU yn <https://www.nhs.uk/sign-up-to-be-contacted-for-research>

A yw gwirfoddolwyr yn cael eu heintio gyda COVID yn y treialon?

Mae gwahanol fathau o frechlynnau yn cael eu treialu ond nid yw unrhyw un o'r rhain yn cynnwys heintio pobl â'r feirws yn fwriadol. Diben y brechlyn yw sbarduno ymateb imiwnyddol ac felly diogelu'r person os yw'n dod i gysylltiad â COVID-19 yn y gymuned. Bydd y brechlynnau sy'n cael eu paratoi ar gyfer brechu'r grwpiau cyntaf o'r boblogaeth wedi bod drwy'r mathau hyn o dreialon ar raddfa fawr.

Mae trafodaethau ar y gweill yn y gymuned ymchwil ar gyfer cynnal treialon her ddynol. Mae'r rhain yn dreialon lle bydd pobl yn cael eu heintio yn fwriadol â COVID i ddarganfod a yw brechlynnau COVID yn gweithio. Awgrymodd adroddiadau'r cyfryngau ym mis Medi y gallai gwirfoddolwyr yn y DU fod yn rhan o dreialon her ddynol cyntaf y byd yn fuan. Byddai angen cymeradwyaeth gan Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd y DU a phwyllgor moesegol annibynnol cyn dechrau cynnal treialon o'r fath.

Bydd gwirfoddolwyr mewn unrhyw dreialon clinigol yn cymryd rhan gan roi eu caniatâd llawn, a byddant yn cael yr holl ffeithiau am y treialon cyn iddynt gofrestru. Diben hyn yw sicrhau bod gwirfoddolwyr yn gwybod yr holl ffeithiau a'r risgiau clinigol.

Os/pan fydd y rhaglen frechlynnau genedlaethol yn dechrau, beth fydd effaith hyn ar y rhaglen dreialon?

Mae'n debygol y bydd angen nifer o wahanol frechlynnau i ddiwallu anghenion y boblogaeth fyd-eang – felly hyd yn oed os ceir tystiolaeth fod un brechlyn yn effeithiol, bydd y rhaglen dreialon yn parhau er mwyn profi brechlynnau eraill.

Gan y bydd yn cymryd misoedd lawer i gynnig brechlyn effeithiol i'r boblogaeth gyfan, bydd yn bosibl i dreialon brechlyn y DU barhau ochr yn ochr â rhaglen frechlynnau. Mae'n debygol y bydd ymchwilwyr yn troi at grwpiau o'r boblogaeth y bwriedir cynnig y brechlyn iddynt yn ddiweddarach a gofyn iddynt gymryd rhan yn y treialon. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael pan fydd tystiolaeth bod brechlyn yn effeithiol. Bydd hyn hefyd yn helpu pobl i benderfynu a ydynt yn dymuno cymryd rhan mewn treialon neu beidio.

A fyddaf o dan anfantais os wyf yn ymuno â threial, ac yna bod brechlyn yn cael ei drwyddedu?

Rydym angen gwirfoddolwyr ar gyfer y treialon brechlynnau, i gasglu tystiolaeth ar ba frechlynnau sy'n ddiogel ac yn effeithiol, cyn y gellir dosbarthu brechlynnau ar gyfer y boblogaeth ehangach. Mae'n bosibl y bydd un neu fwy o frechlynnau yn effeithiol ac y cânt eu cymeradwyo i'w defnyddio cyn diwedd cyfnod y treial. Bydd y Tasglu Brechlynnau a sefydliadau perthnasol eraill yn sicrhau bod y cyngor gorau ar gael i'r holl wirfoddolwyr ar y treial, ac nad ydynt o dan anfantais o fod wedi cymryd rhan mewn treial. Gall hyn gynnwys cynnig brechlyn pellach i wirfoddolwyr ar dreial os ydynt mewn grŵp a nodwyd sy'n flaenoriaeth ar gyfer y brechlyn newydd ei gymeradwyo. Bydd cyngor ar gael i bawb sy'n cymryd rhan yn y treial.

Ddylwn i gael brechlyn rhag y fflw?

Dylech os yw wedi'i argymhell ichi. Efallai y bydd angen ichi aros rhwng un a phedair wythnos rhwng cael y brechlyn rhag y fflw ac unrhyw frechlyn COVID, ond cewch gofrestru ar gyfer yr astudiaeth a thrafod yr amseru gyda'r tîm ymchwil. Peidiwch ag anwybyddu eich gwahoddiad i gael brechlyn rhag y fflw er mwyn cymryd rhan yn y treial COVID, gan y bydd yn ei diogelu.

(Gallwch ddod o hyd i gwestiynau cyffredin yn ymwneud yn benodol â bod yn rhan o astudiaethau brechlyn COVID yn <https://bepartofresearch.nihr.ac.uk/vaccine-studies/>)